



03 Ebrill 2020

Llythyr i holl denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru

Mae feirws corona yn cael effaith ar fywyd pawb.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu i wneud yn siŵr bod cymorth a chefnogaeth ar gael pan fydd eu hangen, ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi cytuno y bydd pawb yn cael eu trin yn deg. Byddant yn:

- ***Eich cadw yn ddiogel yn eich cartrefi***
- ***Eich cynorthwyo i gael y cymorth ariannol sydd angen arnoch***
- ***Eich cynorthwyo os ydych yn cael trafferth talu'r rhent***
- ***Gwneud popeth gallant er eich budd***

Os ydych wedi cael hysbysiad oddi wrth eich landlord bod codiad yn y rhent o fis Ebrill ymlaen dydyn ni ddim am i hyn ychwanegu at eich gofidion.

Mae pob landlord cymdeithasol wedi cytuno i beidio â throi allan tenantiaid sy'n dioddef o broblemau ariannol oherwydd feirws corona. Gofynnais iddynt fynd ymhellach a chadarnhau bod pob tenant yn gallu cael cymorth pan fyddant angen a bod dim un tenant wedi'i adael gyda dyled ddireol pan fydd y feirws corona drosodd.

Bydd amgylchiadau pawb yn wahanol. Mae'n bwysig eich bod yn gallu dod o hyd i'r cyngor a'r cymorth sy'n iawn i chi. Gofynnwn i chi siarad â'ch landlord cyn gynted â phosib os ydych yn dioddef o broblemau ariannol, neu yn meddwl y byddwch yn y dyfodol. Byddant yn gallu eich helpu a'ch cynghori.

Mae ein canllawiau tai ar gael yma: www.llywodraeth.cymru/feirwscorona. Bydd mwy o wybodaeth am gymorth ariannol ar gael ar yr un linc cyn bo hir.

Cadwch yn ddiogel ac iach.

Yn gywir

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.